

CYFARFOD SWYDDOGOL O GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion cyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg, prynhawn Mawrth 28 Tachwedd 2017, 2pm, Pencadlys y Cyngor, Cwm Clydach.

Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol oedd yn bresennol:-

G. Hopkins – Cadeirydd

R. Bevan J. Rosser S. Rees-Owen

Swyddogion oedd yn bresennol

Mrs W. Edwards – Pennaeth Addysg yn y Gymuned

Mr S. Gealy – Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

Ms E. Siôn – Menter Iaith

Ms K. Herbert – Swyddog Graddedig

Ms Hannah Williams – Uwch Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol

7. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu'r Aelodau i gyfarfod Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg.

Daeth ymddiheuriadau gan: y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol J. James ac M. Webber; Ysgrifennydd i'r Cabinet, Mr C. Hanagan; a Chyfarwyddwr Dros Dro Addysg a Dysgu Gydol Oes, Ms E. Thomas.

8. DATGAN BUDDIANT

Doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

9. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 19 Mehefin 2017.

10. DARPARU GWASANAETH CYFIEITHU AR Y PRYD

Rhoddodd Pennaeth Addysg yn y Gymuned gyfle i'r Grŵp Llywio drafod y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn a chyfarfodydd Pwyllgorau amrywiol ar hyn o bryd, sy'n cael ei hwyluso gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg, yr Uned Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol, a'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y 15 o Safonau sy'n rhan o'r hysbysiad cydymffurfio i'w gweld yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Er bod gweithredu'r Safonau'n golygu pwysau ychwanegol ar y staff, rhoddodd y Swyddog sicrwydd i'r Grŵp fod Cyngor Rhondda Cynon Taf yn parhau i ymrwymo i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cafodd y Grŵp Llywio ei gyfeirio at Atodiad 2 i'r adroddiad, lle roedd amlinelliad o'r canllawiau drafft ar gyfer hwyluso cyfarfodydd dwyieithog gyda chymorth gwasanaeth cyfieithu. Esboniodd y Swyddog fod y canllawiau wedi eu drafftio i helpu Cadeiryddion i hwyluso cyfarfodydd; i liniaru'r pwysau ar staff; ac i gyflwyno arfer dda a dull di-dor ar gyfer holl gyfarfodydd dwyieithog y Cyngor.

Roedd y canllawiau'n cynnwys amrywiaeth o agweddau, er enghraifft:-

- Ymarferoldeb defnyddio'r offer, a'u glanhau, a sicrhau bod ystafell y cyfarfod o faint priodol i ganiatáu acwsteg briodol;
- Sicrhau cyfathrebu priodol gyda'r cyfieithydd cyn y cyfarfod i liniaru'r pwysau, hynny yw: esbonio'r math o gyfarfod sy'n cael ei gynnal a darparu dogfennau priodol i'r cyfieithydd, fel sgriptiau wedi eu paratoi ymlaen llaw ac ati.
- Sicrhau bod hysbysebion a gohebiaeth ynglŷn ag agenda'r cyfarfod yn cael eu darparu'n ddwyieithog.

Yn olaf, esboniodd y Swyddog fod gan Gyngor Rhondda Cynon Taf hanes cadarnhaol o ran cydymffurfio, a thrwy weithredu canllawiau o'r fath byddai'r pryderon presennol yn lleihau a, gydag amser, byddai'r dull ar gyfer cynnal cyfarfodydd dwyieithog yn dod yn broses naturiol.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r Swyddog am yr adroddiad, a meddai fod darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn rhywbeth newydd yn achos Cyngor Rhondda Cynon Taf, ond, mae'n agwedd arferol ar Gyfarfodydd Cenedlaethol ac, yn debyg i'r Swyddog, roedd o'r farn byddai hyn hefyd yn wir yn lleol gydag amser.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes y canllawiau drafft, a thynnodd sylw'r Grŵp Llywio at y bwled 'before you start speaking Welsh, please let others know that you're about to do so'. Pwysleisiodd yr Aelod bwysigrwydd hyn, gan bwysleisio pa mor hawdd yw colli dechrau datganiad os dydy'r siaradwr ddim yn rhoi rhybudd am wisgo'r clustffonau mewn pryd. Cytunodd y Grŵp Llywio fod hyn yn bwysig a dylai'r holl siaradwyr Cymraeg roi hyn ar waith ar unwaith. Ychwanegodd Ms E. Siôn, Menter Iaith, pe bai trafodaeth yn llifo trwy gyfrwng y Gymraeg, byddai'n gobeithio fyddai dim angen cyhoeddi hyn bob tro, a chytunodd pawb â hynny.

Croesawodd y Cynghorydd Rees-Owen y canllawiau drafft hefyd, gan ddweud byddai'n broses ddysgu i bawb dan sylw a byddai hi, a hithau'n Gadeirydd Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc – yn ceisio sicrhau bod yr offer yn gweithio cyn y cyfarfod, fel sy'n cael ei amlinellu yn y canllawiau.

Cododd y Cynghorydd bryderon ynglŷn ag uchder sain yr offer ac a fyddai'r gwrandawr yn clywed y siaradwr a'r cyfieithydd ar yr un pryd yn dibynnu ar uchder y sain, ond, ychwanegodd byddai hyn yn dod yn fwy eglur gydag amser.

Roedd y Cynghorydd hefyd yn amau'r bwled, 'Ensuring that the interpreter/Welsh Language Unit received documentation relevant to the meeting beforehand, including any pre-prepared statements or scripts if appropriate', oherwydd, gan amlaf, byddai'r drafodaeth yn mynd ar hyd trywydd gwahanol a gallai'r sgript gael ei newid. Dywedwyd, hyd yn oed pe bai dogfennau'n cael eu darparu ar gyfer y cyfieithydd, byddai rhaid i'r cyfieithydd, wrth gwrs, gadw'n effro ac yn hyblyg pe bai hyn yn digwydd.

Cafwyd trafodaethau ynglŷn ag agwedd pobl yn ystod cyfarfodydd, gydag Aelodau'r Grŵp Llywio'n cytuno byddai agwedd pob plaid yn debygol o newid gydag amser i sicrhau peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn Siambr y Cyngor.

Ychwanegodd y Cadeirydd ei bod hi'n hanfodol bod siaradwyr Cymraeg yn osgoi anelu unrhyw rwystredigaeth at y cyfieithwyr yn ystod y cyfnod pontio oherwydd does dim ond cronfa fach o adnoddau ar gael a dylid canolbwyntio ar annog cyfieithwyr yr Uned Gwasanaethau Cymraeg, a gwella eu sgiliau. Cytunodd y Cynghorydd Rees-Owen â hyn, ond, gofynnodd sut byddai siaradwyr Cymraeg yn sicrhau bod yr hyn maen nhw'n ei ddweud yn cael ei ddehongli'n gywir heb danseilio'r cyfieithydd. Dywedodd Mr S. Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg, wrth y Grŵp i ddilyn yr un broses ag y bydden nhw'n ei dilyn pe baen nhw'n siarad Saesneg, ac esbonio yn y cyfarfod Pwyllgor dilynol fod y datganiad wedi ei gofnodi'n anghywir. Meddai'r Cadeirydd byddai'n broses ddwy ffordd. Er enghraifft, mae'n bosibl bydd dysgwyr sydd eisiau siarad a gwrandawr heb glustffonau – i wella eu sgiliau – yn dehongli brawddeg yn anghywir, neu'n ei chamddeall hi, felly, mae'n bosibl fyddan nhw ddim yn rhoi ymateb priodol o dan bwysau. Cytunodd aelodau'r Grŵp Llywio dylai pawb sy'n cymryd rhan mewn cyfarfod deimlo'n ddigon cyfforddus i ofyn am gael clywed y cwestiwn eto, waeth beth oedd yr iaith gafodd ei defnyddio.

Canmolodd Ms E. Siôn y canllawiau drafft, a meddai byddai hi'n croesawu trafodaeth ar elfen ymarferol y canllawiau a sut i ddatblygu'r camau ymhellach.

Dyweddodd Mr S. Gealy wrth y Grŵp Llywio, pe bai'n cymeradwyo'r canllawiau drafft, byddai dogfen swyddogol yn cael ei pharatoi a'i chyflwyno i'r Pwyllgor perthnasol, os bydd angen.

PENDERFYNODD y Grŵp Llywio:

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad
- b) Cymeradwyo'r canllawiau drafft ar gyfer hwyluso cyfarfodydd dwyieithog gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

D.S. Rhoddodd y Cynghorydd R. Bevan wybod i'r Cadeirydd ymlaen llaw, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y trafodaethau.

11. TARO'R CYDBWYSEDD IAWN: CYNIGION LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER BIL Y GYMRAEG NEWYDD – PAPUR GWYN

Rhoddodd Pennaeth Addysg yn y Gymuned amlinelliad i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg o gynnwys cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil y Gymraeg newydd.

Esboniodd y Swyddog fod Adroddiad Sicrwydd 2016–17 Comisiynydd y Gymraeg, oedd i'w weld yn Atodiad 1, yn dangos bod y Safonau, er eu bod nhw wedi eu rhoi ar waith yn ddiweddar, yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ansawdd a chysondeb gwasanaethau Cymraeg. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y Safonau'n rhoi gormod o bwyslais ar faterion rheoleiddio a dim digon o bwyslais ar faterion hyrwyddo, felly, lansiodd ymgynghoriad ar 9 Awst 2017 ynglŷn â'r cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg newydd Cyfeiriwyd y Grŵp Llywio at adran 4.3 o'r adroddiad, lle roedd amlinelliad o'r cynigion ar gyfer symleiddio'r dull.

Cyfeiriwyd y Grŵp Llywio wedyn at adran 5 o'r adroddiad, lle roedd amlinelliad o'r pum opsiwn oedd yn rhan o'r ymgynghoriad:-

1. Dim newid
2. Diwygio'r system bresennol
3. Set fechan o Safonau mwy cyffredinol yn y ddeddfwriaeth sylfaenol
4. Cynlluniau eithrio wedi'u rheoleiddio sy'n seiliedig ar set fechan o Safonau mwy cyffredinol
5. Nodi hawliau i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg mewn deddfwriaeth sylfaenol

Eglurwyd mai'r opsiwn oedd yn cael ei ffafrio gan Lywodraeth Cymru oedd Opsiwn 2 oherwydd byddai'n cynnig system effeithiol, gan ystyried gwaith blaenorol Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, ac eraill, gan gynnal yr adnoddau oedd eisoes wedi'u buddsoddi yn y Safonau ac, yn ei dro, yn helpu Cyrff i'w hadolygu a'u gwella dros amser.

Dyweddodd Ms E. Siôn wrth y Grŵp Llywio, a hithau wedi cymryd rhan yn y broses ymgynghori a chlywed barn llawer o sefydliadau, fod y canlyniadau wedi bod yn arwyddocaol, gyda llawer yn gwneud sylwadau ar y cynnig i sefydlu corff sengl newydd sy'n gyfrifol am faterion cydymffurfio â'r Safonau. Eglurwyd byddai'r canlyniadau'n debygol o gael eu rhannu yn ystod y misoedd nesaf, a byddan nhw'n ceisio gwella'r trefniadau presennol ar gyfer yr holl Gyrff dan sylw.

A hithau'n Aelod oedd newydd gael ei benodi i'r Grŵp Llywio, gofynnodd y Cynghorydd Rees-Owen a oedd gan Gyngor Rhondda Cynon Taf ddogfen oedd yn amlinellu ei nodau a'i ddull ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a chyflawni'r targed o ran miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Meddai'r Swyddog cafodd Strategaeth Hybu'r Gymraeg, a Chynllun Gweithredu, eu cymeradwyo gan y Grŵp Llywio yn 2016–17 i gyrraedd y nod yma, a byddai'r Cynghorydd yn cael copi yn dilyn y cyfarfod. Gofynnodd y Cynghorydd Rosser, Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes, hefyd am gael copi o Strategaeth Hybu'r Gymraeg, a'r Cynllun Gweithredu.

Gofynnodd Ms E. Siôn pryd byddai'r Grŵp Llywio yn cael cyfle i adolygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg, a chraffu arni. Dywedodd Mr S. Gealy gallai hyn, wrth gwrs, ddod yn ôl i'r Grŵp Llywio yn y Flwyddyn Newydd, ond, bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cynrychiolydd allanol i ymweld ag Awdurdodau Lleol ac adolygu'r camau sydd wedi'u cymryd i weithredu'r cynlluniau.

PENDERFYNWYD:

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad, a gwneud sylwadau arno
- b) Byddai Pennaeth Addysg yn y Gymuned yn anfon copi o Strategaeth Hybu'r Gymraeg Cyngor Rhondda Cynon Taf, a'i Gynllun Gweithredu, at y Cynghorydd Rees-Owen a'r Cynghorydd Rosser, Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes.

12. CYMRAEG: BETH SYDD WEDI NEWID AR GYFER PARTNERIAID SYDD WEDI EU COMISIYNU

Rhoddodd Ms K. Herbert, Swyddog Graddedig, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp Llywio am y cynnydd a wnaed ar y prosiect i gefnogi partneriaid sydd wedi eu comisiynu gan y Cyngor er mwyn bodloni Safonau'r Gymraeg yn unol â'r Hysbysiad Cydymffurfio Statudol o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Atgoffodd Ms K. Herbert yr Aelodau o'i phresenoldeb yng nghyfarfod y Grŵp Llywio ar 19 Mehefin 2017 i ymgynghori ynglŷn â chamau cyntaf y fersiwn ddrafft ac, yn ôl adborth gan y Grŵp, byddai'n fwy syml pe bai'n cynnwys

cyfeiriadau mwy penodol at faterion cydymffurfio a llai o bwyslais ar ffactorau diwylliannol.

Dywedwyd wrth y Grŵp Llywio fod y canllaw, 'Cymraeg: Beth sydd wedi newid ar gyfer partneriaid sydd wedi eu comisiynu', oedd i'w weld yn Atodiad 1 i'r adroddiad, yn cynnwys:-

- Crynodeb o Safonau'r Gymraeg a'r hyn maen nhw'n ei olygu
- Pum maes y Safonau
- Amlinelliad o'r Safonau sy'n berthnasol i'r darparwyr sy'n cael eu comisiynu.

Ychwanegwyd byddai'r pecyn yn ceisio lliniaru pryderon presennol y partneriaid sy'n cael eu comisiynu – doedden nhw ddim yn gallu dehongli'r Safonau – trwy ddarparu crynodeb manwl o bob Safon ac enghreifftiau o'r ffordd maen nhw'n perthyn i bob comisiynydd.

Manteisiodd aelodau'r Grŵp Llywio ar y cyfle i longyfarch y Swyddog Graddedig ar y llyfryn cynhwysfawr a roddwyd ger eu bron, gan gytuno bod yr adnodd yn hawdd ei ddefnyddio a'i fod yn gam ymhellach na'r dogfennau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Meddai Ms W. Edwards fod y prosiect a roddwyd i'r Swyddogion Graddedig wedi bod yn gyfle cyffrous i'r Uned Gwasanaethau Cymraeg ac wedi bod o gymorth mawr wrth gysylltu'r Partneriaid â'r Strategaeth. Rhoddodd y Swyddog ddiolch i'r garfan am ei holl gymorth yn ystod y prosiect.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddog Graddedig am ei chomau nesaf, a dymunodd bob hwyl iddi ar gyfer y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad, a gwneud sylwadau arno
- b) Cymeradwyo'r llyfryn, 'Cymraeg: Beth sydd wedi newid? Canllaw manwl ar gyfer partneriaid sydd wedi eu comisiynu'

13. MENTER IAITH – GRANT CYMRAEG

Rhoddodd Ms E. Siôn yr wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r Grŵp Llywio am brosiect newydd, cyffrous, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac sydd i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2018.

Eglurwyd byddai'r grant o £19,000 a mwy yn ariannu gêm gyfrifiadurol, ryngweithiol, Gymraeg, sy'n cael ei lleoli yn y 1880au ac sy'n dilyn y cymeriad, 'Anwen', drwy'r Cymoedd. A hithau'n cael ei datblygu gan 'Web Fire', bwriad y gêm yw rhyngweithio â phobl ifainc mewn ffordd newydd a diddorol. Cysyniad y gêm yw cael y person ifanc i gwblhau cyfres o bosau Cymraeg i gyrraedd y cam nesaf. Esboniodd Ms Siôn fydd y posau ddim yn rhy ddwys; byddan

nhw'n ddull difyr ar gyfer casglu data i ddatblygu ymhellach y gwasanaethau Cymraeg i bobl ifainc.

Rhoddwyd gwybod i'r Grŵp Llywio fod gweithdai wedi eu trefnu i bobl ifainc gael helpu datblygu syniadau am bosau, enwau ac ati; ac ar ôl lansio'r gêm, byddai ar gael i'r byd i gyd gydag isdeitlau. Meddai Ms Siôn fod disgwyl i'r lansiad gael ei gynnal ar 21 Ebrill 2018, a byddai Parc Treftadaeth Cwm Rhondda yn lleoliad perffaith o ystyried lleoliad y gêm. Byddai'r prosiect newydd, cyffrous, yn cyfrannu at Strategaeth y Gymraeg, a'r nodau, a hefyd yn rhoi Rhondda Cynon Taf ar y map.

Siaradodd y Cadeirydd yn gadarnhaol am y prosiect, a gofynnodd am gael gwybod y manylion am daith Anwen yn y gêm. Dywedodd Ms Siôn byddai'r cymeriad yn cael ei reoli gan y chwaraewr i deithio trwy'r gêm, ac i gael symud ymlaen i'r dasg nesaf, byddai rhaid i'r chwaraewr gwblhau pos.

Gofynnodd y Cadeirydd am bris y gêm, a'i chynaliadwyedd yn y dyfodol. Meddai Ms Siôn doedd hyn ddim wedi ei gadarnhau eto, a bod trafodaethau ar y gweill.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i Ms Siôn am yr wybodaeth am y prosiect a rhoddwyd sicrwydd byddai syniadau gan unrhyw Aelodau yn cael eu croesawu.

Daeth y cyfarfod i ben am 3:10pm

Y Cynghorydd G. Hopkins

Cadeirydd